Ms Judith Greenhalgh
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62
Rhuthun
LL15 9AZ
(judith.greenhalgh@denbighshire.gov.uk)

25 Hydref 2018

Annwyl Brif Weithredwr,

**Archwiliad o Gyngor Sir Ddinbych**

Roedd eich Cyngor yn destun archwiliad dogfennol yn seiliedig ar fwrdd gwaith yn ddiweddar gan un o fy Arolygwyr, Mr Graham McCrory MBE. Rwy'n gwerthfawrogi eich bod wedi trefnu hyn drwy eich rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Ms Lisa Jones, sydd wedi darparu'r deunyddiau perthnasol ac sydd hefyd wedi rhoi rhagor o fanylion i ni drwy siarad gyda fy Arolygydd.

Er nad oes angen gwneud archwiliad gwirioneddol ar y cam hwn, mae'r adolygiad bwrdd gwaith wedi nodi achosion penodol sydd angen eu datrys ac mae Mr McCrory wedi gwneud yr argymhellion canlynol:

1. Er bod hyfforddiant ymwybyddiaeth RIPA wedi'u cynnal ers yr arolwg diwethaf, mae angen datblygu a chyflwyno hyfforddiant ac ymwybyddiaeth rheolaidd trwy'r Cyngor cyfan er mwyn i'r rheiny sydd yn defnyddio pwerau RIPA fod wedi'u diweddaru.

2. Tra bod yr Uwch Swyddog Cyfrifol (USC) wedi derbyn Hyfforddiant Swyddog Awdurdodi, dylid ond defnyddio'r gallu i awdurdodi ceisiadau RIPA fel y dewis olaf un. Eu rôl fel USC yw goruchwylio'r defnydd o bwerau RIPA gan weithwyr cyflogedig y Cyngor.

3. Dylid diweddaru dogfennau Polisi'r Cyngor ac ychwanegu atynt yn y meysydd canlynol:

- Dylid datblygu manylion ar ddefnyddio Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol (SRhC) ymhellach i gynnwys cyngor a chyfarwyddyd wedi'u cynnwys yn y Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer Cuddwylio ac Ymyriant Eiddo 2018 (Paragraffau 3.10 i 3.17)
- Mae'r cyfnod awdurdodi ar gyfer CHIS troseddwr ifanc wedi cael ei ddiwygio a bellach ar gyfer uchafswm o bedwar mis yn hytrach na mis fel y dogfennwyd yn Adran (4.2) o'r ddogfen polisi Cyngor. (Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol 2018, paragraff 4.2 yn cyfeirio)
- Dylai unrhyw gyfeiriadau i Swyddfa Comisiynwyr Gwyliadwriaeth (OSC) fel y corff goruchwylio ar gyfer pwerau RIPA gael eu diweddaru i adlewyrchu fod goruchwyliaeth yn cael ei wneud gan y Swyddfa Comisiynydd Pwerau Ymchwiliol (IPCO)

4. Roedd y ddau awdurdodiad gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd a adolygwyd i'w gweld o fod wedi'u cwblhau i safon dda. Yn dweud hynny, rhaid canslo gweithgaredd wedi'i awdurdodi yn amserol ac i hynny ddigwydd yn brydlon ar ôl i'r angen am oruchwyliaeth i ddod i ben.

Byddwn yn gwerthfawrogi pe baech yn gallu ymateb o fewn chwech wythnos o ddyddiad y llythyr hwn i'n hysbysu o'r camau gweithredu y byddwch yn eu cymryd.   Yna byddaf yn penderfynu os bydd angen arolwg gwirioneddol.

Rwy'n cymryd y cyfle yma i'ch atgoffa o bwysigrwydd goruchwyliaeth fewnol barhaus a rheolaidd o ddefnydd gwirioneddol a phosib o'r pwerau hyn a dylid eu rheoli trwy eich Uwch-Swyddog Cyfrifol

_______________________. Mae swyddogion angen cadw eu lefelau hyfforddiant rhag ofn, ac er mor fychan yw’r posibilrwydd mae angen defnyddio’r pwerau.  Rwyf hefyd yn tynnu sylw at ba mor ddefnyddiol yw cyfryngau cymdeithasol a’r defnydd cynyddol ohono sydd yn gallu cynnig arweiniad archwiliol yn y lle cyntaf a hefyd yn helpu gyda gorfodi neu gyfrifoldebau eraill, ond mae'n gyfrifoldeb arnoch i sicrhau fod adnoddau o’r fath yn cael eu defnyddio mewn modd wedi’i reoli, archwilio a’i ddeall yn dda.   Mae Cod Ymarfer Cuddwylio ac Ymyriant Eiddo'r Swyddfa Gartref y cyfeirir ato, yn darparu cyngor defnyddiol ar y pwnc hwn.

Cysylltwch gyda fy swyddfa os oes gennych unrhyw ymholiadau yn dilyn yr arolwg bwrdd gwaith, neu ar unrhyw adeg yn y dyfodol. Darperir manylion cyswllt ar waelod y llythyr hwn.

Yn gywir,

Y Gwir Anrh Yr Arglwydd Ustus Fulford



Comisiynydd Pwerau Ymchwilio